# CYFARFOD Â'R TÎM ADOLYGU AR Y CYD

Diolch am gytuno i gyfarfod â'r tîm adolygu ar y cyd tra bydd yn eich ardal yn edrych ar y modd y mae'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau cymdeithasol.

Ystyr gwasanaethau cymdeithasol yma yw'r holl wasanaethau y mae'r cyngor yn eu darparu ei hun neu'n trefnu i eraill eu darparu i amrywiaeth o bobl ag arnynt angen gofal a chefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc (a'u teuluoedd), pobl hŷn, pobl sydd â phroblem iechyd meddwl, pobl sydd ag anabledd dysgu, pobl sydd ag anabledd corfforol neu bobl sydd â nam ar y synhwyrau. Mae gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn helpu'r rhai sy'n gofalu am eraill, gan gynnwys gofalyddion ifanc.

Erbyn hyn, gobeithiwn y byddwch wedi cael eich copi o'r daflen sy'n disgrifio'r hyn sy'n digwydd mewn adolygiad ar y cyd. Diben y nodyn hwn yw darparu mwy o wybodaeth i'r rheiny fydd yn cyfarfod mewn grwpiau ag aelodau o'r tîm adolygu ar y cyd.

**Y cyfarfodydd**

Ein gwaith ni yw darganfod pa mor dda mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn eich ardal chi'n diwallu anghenion defnyddwyr a gofalyddion. Mae hyn yn golygu rhoi cyfle ichi ddweud wrthym am:

- yr hyn sydd wedi digwydd i chi;
- yr hyn sy'n gweithio'n dda;
- yr hyn sydd angen ei newid.

Mae cyfarfodydd â gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalyddion yn un ffordd o wneud hyn.

Credwn fod y cyfarfodydd hyn yn rhan bwysig iawn o'r adolygiad, yn enwedig os yw pobl yn teimlo y gallant siarad yn agored ac yn onest. Mae'n helpu os yw pawb sy'n cymryd rhan:

- yn gwybod beth i'w ddisgwyl;
- wedi paratoi'n dda;
- yn teimlo'u bod yn cael eu croesawu a'u cynnwys;
- ag unrhyw anghenion arbennig sy'n cael eu diwallu.

Rydym yn gweithio'n agos gyda staff yn y gwasanaethau cymdeithasol wrth geisio sicrhau mai dyma sy'n digwydd. Maent yn gwneud y trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd, gyda chymorth mudiadau gwirfoddol ar adegau. Fodd bynnag, mae croeso ichi gysylltu â ni os hoffech drafod y trefniadau.

## Paratoi ar gyfer y cyfarfod

Byddwn yn dod i'r cyfarfod gyda rhai cwestiynau cyffredinol ynghylch gwasanaethau cymdeithasol. Byddwn am wirio peth o'r wybodaeth a gawsom eisoes. Ar ddiwedd y nodyn hwn gwelir rhestr o'r meysydd y byddwn o bosibl am eu trafod, ynghyd â rhai cwestiynau posibl y gellid eu gofyn. Arweiniad yn unig yw'r rhestr hon. Nid oes disgwyl ichi fod â'r atebion i'r holl gwestiynau hyn (neu hyd yn oed y rhan fwyaf ohonynt!).

## Siarad am eich profiadau

Yn ogystal â gofyn cwestiynau, byddwn am sicrhau eich bod yn cael y cyfle:

- i siarad am y materion sydd o bwys i chi;
- i ddweud wrthym am eich profiadau.

Fe ddylech deimlo'n ddigon hyderus i siarad yn agored ac yn onest. Fodd bynnag, mae'n bwysig eich bod yn deall nad yw'r hyn a ddywedwch yn gyfrinachol. Mae'n bosibl y bydd yr hyn a ddywedir yn y cyfarfod yn cael ei ddefnyddio yn ein trafodaethau â'r awdurdod lleol neu'n cael ei ddyfynnu yn yr adroddiad terfynol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn enwi unrhyw un sy'n rhoi

gwybodaeth inni (oni bai ei fod yn achosi pryder inni ynghylch risgiau i rywun sy'n agored i niwed).

Mae gennym gymaint o ddiddordeb yn yr hyn sy'n gweithio'n dda ag yn y pethau hynny sydd angen eu gwella.

Nodwch, os gwelwch yn dda, na allwn ddilyn trywydd cwynion unigol ar eich rhan, er y byddwn yn codi materion sy'n destun pryder gyda rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol.

Gobeithiwn fod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi. Edrychwn ymlaen at eich cyfarfod.

## Cod ymddygiad a chwynion

Mae'n ofynnol i'r tîm adolygu ar y cyd fodloni safonau ymddygiad uchel iawn wrth gyflawni'u gwaith. Mae croeso ichi weld y cod ymddygiad sy'n disgrifio'r rheolau hyn.

Os nad ydych yn fodlon â'r modd o'ch trin yn ystod yr ymweliad, mae'r daflen adolygu ar y cyd yn egluro sut y gallwch sicrhau bod y mater yn cael ei ddatrys neu sut y gallwch gyflwyno cwyn.

# Materion Allweddol

Byddwn yn edrych ar ddau fater allweddol:

1. I ba raddau mae gwasanaethau cymdeithasol yn diwallu anghenion ar hyn o bryd?
2. I ba raddau mae'r gallu gan yr awdurdod lleol i wella ansawdd y gwasanaethau hynny?

Rhaid dod i wybod am amrywiaeth eang o feysydd i wneud hyn.

## 1. Diwallu anghenion unigol

**Cael gwasanaeth** – Pa mor hawdd oedd hi ichi ddod i wybod am y gwasanaethau sydd ar gael a gofyn am y gwasanaethau hynny?

**Asesiad** – Beth yw'ch barn am yr asesiad a gawsoch chi? - Oeddech chi'n rhan o'r asesiad ac a ystyriwyd eich barn? - A oedd yn rhaid ichi roi gwybodaeth i lawer o wahanol bobl?

**Y gweithiwr cymdeithasol neu'r rheolwr gofal** – A oes gennych gynllun gofal? - A yw wedi'i adolygu a'i newid wrth i'ch anghenion newid?

**Ystod gwasanaethau** – A ydych o'r farn bod yna ystod dda o wasanaethau ar gael? - A ydych wedi cael dewis ynghylch y modd y mae'ch anghenion yn cael eu diwallu?

**Ansawdd gwasanaethau** – A yw'r gwasanaethau rydych yn eu cael wedi bod o ansawdd da? - A ydych wedi'ch trin â pharch wrth ichi dderbyn gwasanaethau cymdeithasol?

**Amddiffyn rhag niwed** – A ydych o'r farn bod yr ymateb i'r bobl hynny sydd fwyaf mewn perygl yn dda?

**Annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol** – A ydych o'r farn bod gwasanaethau'n helpu pobl i aros yn annibynnol? - A yw gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffyrdd sy'n annog pobl i fanteisio ar gyfleoedd i fyw bywyd llawnach?

## 2. Y gallu i wella gwasanaethau

**Staffio** – A ydych o'r farn bod y bobl sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol wedi'u hyfforddi'n dda? - Ydy'r bobl sy'n gweithio gyda chi wedi gwneud argraff arnoch? - Ydy'ch gweithiwr cymdeithasol wedi'i newid yn aml?

**Manteisio i'r eithaf ar y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd** – A ydych o'r farn bod yna safonau eglur i helpu i warantu gwasanaethau o ansawdd da? - A ofynnwyd am eich barn am y gwasanaethau a ddarperir neu a drefnir?

**Cynllunio a phartneriaethau** – A ydych yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i newid y gwasanaethau rydych yn eu cael? - A ofynnwyd ichi am eich barn ar sut y gellid newid y gwasanaeth er gwell? - Os oes newidiadau ar y gweill, a gymeroch chi ran yn y broses? - A yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n dda gydag eraill (gan gynnwys y gwasanaeth iechyd, adrannau eraill yn yr awdurdod lleol, mudiadau gwirfoddol a'r sector preifat)?

**Darparu gwasanaethau** – A ydych yn ymwybodol o bwy sy'n darparu'r gwasanaethau yn eich cynllun gofal? - A ofynnwyd ichi ynghylch pa mor dda mae darparwyr annibynnol y gwasanaethau'n bodloni amodau eu contractau? - A oedd gennych unrhyw ddewis ynghylch pa wasanaethau oedd ar gael i'ch helpu?

**Defnyddio adnoddau (staff, arian, safleoedd ac ati)** – A ddefnyddir adnoddau'n dda? - A oes gennych brofiad o ddyblygu adnoddau, eu gwastraffu neu eu defnyddio'n wael?

**Arweinyddiaeth a diwylliant mewn gwasanaethau cymdeithasol** – A ydych yn fodlon mai adran 'â'r gallu i weithredu' yw hon, sy'n gosod defnyddwyr gwasanaeth a gofalyddion ar y blaen?

**Rôl y cyngor** – Ydy aelodau etholedig yn mynegi diddordeb priodol yn y ffordd mae'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau cymdeithasol? - A oes perthynas waith dda rhwng y gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau eraill yn yr awdurdod lleol (megis addysg a thai)?

## Cyffredinol

Beth yw'r pethau ynghylch y gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi gwneud argraff arbennig arnoch? - Beth yw'r uchafbwyntiau y dylem wybod amdanynt? - Ym mha ffyrdd mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi'ch siomi? - Sut allent wella pethau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gofalyddion?